Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
20 Mai 2013

Teitl y Papur	**Dangosfwrdd Corfforaethol Drafft**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur** NRW B (O) 7/13 – Mai 2013
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur:**	**Ceri Davies** **John Hogg**

Pwrpas y Papur:	Ystyried Dangosfwrdd Corfforaethol drafft ar gyfer 2013/14 a holi am arweiniad gan y Bwrdd wrth greu'r fersiwn derfynol.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y camau sydd eu hangen i greu fersiwn derfynol o'r Dangosfwrdd Corfforaethol i'w ddefnyddio yn 2013/14

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd mesurau'r dangosfwrdd yn caniatáu i ni ddangos ein bod yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol. **Effaith ar yr Economi**: Bydd mesurau'r dangosfwrdd yn caniatáu i ni ddangos ble mae'n gweithgareddau yn helpu'r economi. **Effaith ar Gymunedau**: Bydd mesurau'r dangosfwrdd yn caniatáu i ni ddangos y gwaith rydym ni'n ei wneud gyda chymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn cadw trosolwg clir ar ein perfformiad, bydd gennym y gallu i roi gwybodaeth am sut rydym yn mynd ati i gyflawni ac yn deall yr hyn sydd wedi'i gyflawni fel y gall ddylanwadu ar gynlluniau'r dyfodol.

Y Mater dan Sylw

1. Fel rhan o'n trefniadau llywodraethu, yn ystod 2013/14, disgwylir i ni ddarparu gwybodaeth am berfformiad allweddol ar y gwaith o gyflawni blaenoriaethau penodol a thargedau rhifol i Fwrdd a Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ac i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Mae'r papur hwn yn argymell dangosfwrdd Corfforaethol blwyddyn o hyd a fydd yn canolbwyntio ar fonitro ac adrodd ar berfformiad gan ddefnyddio Cynllun Busnes 2013/14 fel ffon fesur.

Cefndir

2. Roedd Llythyr Cylch Gwaith cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gofyn am Gynllun Busnes ar gyfer 2013/14 i gael ei baratoi fel fframwaith perfformiad dros dro. Mae'r cynllun hwn, a gymeradwywyd eisoes gan y Bwrdd, bellach wedi derbyn sêl bendith Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys crynodeb o'n holl waith, yn ogystal â'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2013/14 sy'n cynnwys y rhai a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Llythyr Cylch Gwaith.

3. Wrth gymeradwyo'r Cynllun Busnes, nododd y Bwrdd y dylid defnyddio dull seiliedig ar ddangosfwrdd i fonitro perfformiad gan ddefnyddio Cynllun 2013/14 fel ffon fesur. Dylai hefyd fod yn amlwg ac yn hawdd i'w adrodd, er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n hymdrechion yn 2013/14 ar baratoi'r Cynllun Corfforaethol cyntaf a Fframwaith Perfformiad llawn i'r cyfnod hyd at ddiwedd tymor presennol y Cynulliad. Byddai'n cynnwys trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar rôl adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd ac adnoddau naturiol i fonitro perfformiad ehangach ym maes rheoli adnoddau naturiol. Ochr yn ochr â'r dangosfwrdd bydd adroddiad ariannol ar wahân i'r Bwrdd a fydd yn cynnwys y risgiau a'r mesurau lliniaru cyfredol a pherfformiad ariannol yn gyffredinol.

4. Mae'r dangosfwrdd Corfforaethol drafft wedi ei ddatblygu gan gyfeirio at dechnegau dangosfwrdd a chardiau sgorio cydnabyddedig. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd yn syml â'r chwe phortffolio yn y Cynllun Busnes, ynghyd â'r cynllun trefniadol yn cynnwys iechyd cyffredinol y sefydliad. Dewiswyd y gyfres gyntaf o fesurau (a nodir yn Atodiad 1) ar y sail ganlynol:

- Nodwyd yn y Cynllun Busnes fel 'maes i ganolbwyntio arno' yn 2013/14
- Nodwyd yn y Cynllun Busnes fel targedau achos busnes neu fel targedau trawsnewid/trosglwyddo
- Mesurau a ddefnyddir yn aml gan sefydliadau i fonitro eu "hiechyd"
- Mesurau sy'n gysylltiedig â risgiau corfforaethol nad ydynt eisoes wedi cael eu cynnwys

5. Mae'r 95 mesur rhifol a thestunol wedi eu blaenoriaethu gan roi cyfanswm o 46 ohonynt i ni, ac yna'u crynhoi i 10 basged yn ôl portffolio a chyd-destun sefydliadol. Blaenoriaethwyd ar sail pwysigrwydd i'r sefydliad yn

y flwyddyn gyntaf, materion sy'n peri risg i'r sefydliad, a blaenoriaethau'r Gweinidog. Mae'r diagram canlynol yn disgrifio sut yr aethpwyd ati.



6. Yn Atodiadau 2 a 3 gwelir enghreifftiau o'r dangosfwrdd Corfforaethol mewn fformat sy'n dangos blaenoriaethau ac mewn fformat cryno. Nodir y tueddiadau o ran perfformiad (gan fwrw golwg yn ôl ar y chwarter ac edrych ymlaen at ddiwedd y flwyddyn), a byddai adroddiadau cynnydd ar y ddwy lefel yn cyd-fynd â'r dangosfwrdd. Mae'r adroddiadau'n darparu gwybodaeth bellach am unrhyw wyro o ran perfformiad ynghyd â llwyddiannau allweddol, ac mae'r atodiadau'n cynnwys enghreifftiau o sut y gallai'r rhain ymddangos.

7. Mae'r dangosfwrdd cryno yn dangos perfformiad pob basged o fesurau, ar sail yr elfen sy'n perfformio waethaf. Dewis arall fyddai crynhoi ar sail yr elfen orau, neu'r un gyfartalog, ond gallai'r dewis olaf hwn arwain at golli'r ystyr ar lefel penawdau.

Y Cynigion a'r Camau Nesaf

8. Dylid darparu adroddiad ar gynnydd y perfformiad ar gyfer pob un o'r 46 o fesurau blaenoriaeth a nodwyd ar y dangosfwrdd Corfforaethol. Dylid cyflwyno adroddiad i'r Weithrediaeth gan ddefnyddio fformat y dangosfwrdd o flaenoriaethau a'r adroddiad ar gynnydd sydd yn Atodiad 2. Bydd hyn yn rhoi manylion ar y ffactorau hanfodol a'r cyfle i adolygu a dylanwadu ar berfformiad.

9. Mae cyfle i adolygu'n rheolaidd y dangosfwrdd Corfforaethol a awgrymir, sy'n cynnwys 46 o fesurau, gan nodi unrhyw wyro sylweddol neu lwyddiannau pwysig. Mae hyn yn rhoi trosolwg eang i'r Bwrdd o berfformiad. Rhoddwyd heibio'r syniad amgen o adrodd i'r Bwrdd ar is-gyfres ddewisol o fesurau yn unig, gan y byddai hyn ond yn rhoi darlun rhannol i'r Bwrdd o berfformiad.

10. Mae cyfle i drafod a chytuno ar y fformat a'r dull sy'n diwallu anghenion y Bwrdd orau. Mae yna dri dewis yn fras:

- Dangosfwrdd o flaenoriaethau (46 mesur) gydag adroddiadau cynnydd manwl
- Dangosfwrdd cryno (10 basged) gydag adroddiadau cynnydd cryno
- Dangosfwrdd o flaenoriaethau (46 mesur) gydag adroddiadau cynnydd cryno

11. Dylid defnyddio'r Dangosfwrdd Corfforaethol i adrodd ar berfformiad i Lywodraeth Cymru.

12. Dylai'r sefydliad barhau i gasglu gwybodaeth eang am berfformiad y gellir ei throsglwyddo i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth os gofynnir amdani ar sail ad-hoc.

13. Caiff perfformiad canlyniadau ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith i greu Cynllun Corfforaethol a Fframwaith Perfformiad yn ystod 2013/14. Bydd creu'r Cynllun Corfforaethol yn darparu'r mandad ar ein blaenoriaethau, ac yn rhoi llwybr clir o'r canlyniadau i'r perfformiad busnes blynyddol a'r perfformiad cysylltiedig.

14. Oherwydd bod cymaint o'r mesurau perfformiad unigol yn cael eu cyflawni gan nifer o Gyfarwyddiaethau, bydd y Tîm Gweithredol yn gyd-gyfrifol am adolygu perfformiad. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw un yn meddwl yn gul, gan ddarparu cymorth i nodi atebion da er mwyn datrys unrhyw wyro, rhannu llwyddiannau a chefnogi newid mewn diwylliant yn ystod y flwyddyn gyntaf.

<u>Risgiau</u>

15. Drwy ddefnyddio dangosfwrdd, gall y Bwrdd oruchwylio'n rheolaidd waith y sefydliad yn ystod y flwyddyn.

- Os yw'r dangosfwrdd yn rhy gryno bydd yn ddi-werth i'r Bwrdd (ac i'r cyhoedd) ac ni fydd yn disgrifio'r hyn rydym yn ei gyflawni'n iawn.
- Os yw'r dangosfwrdd yn rhy fanwl, bydd yn cymryd gormod o amser ac yn defnyddio adnoddau y gellid eu defnyddio i gyflawni'r gwaith dan sylw.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

16. Dim - defnyddir y staff presennol i weithredu'r dangosfwrdd a bydd Cynllunio Corfforaethol ar draws y Cyfarwyddiaethau hwyluso'r gwaith.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

17. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio a chyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n atebol i Weinidog Llywodraeth Cymru.

Cyfathrebu

18. Bydd angen trafod y Dangosfwrdd Corfforaethol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ei gofynion o ran perfformiad yn cael eu diwallu'n iawn. Bydd angen i'r cyfarwyddwyr a'u timoedd ddeall sut maeychwanegu at y dangosfwrdd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

14. Amherthnasol

Mynegai o'r Atodiadau

Atodiad 1:Y gyfres gychwynnol o fesurau a gynigir – fersiwn ddrafft
Atodiad 2:Y dangosfwrdd Corfforaethol o flaenoriaethau a gynigir – fersiwn ddrafft
Atodiad 3: Y dangosfwrdd Corfforaethol cryno a gynigir – fersiwn ddrafft